
**9fed Cyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru
Dydd Iau, 7 Gorffennaf 2016
Ystafell Gynadledda 21, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd
Cofnodion**

Yr Aelodau

Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol - Cadeirydd
Y Cynghorydd Aaron Shotton – Sir y Fflint, CLILC, Llefarydd ar ran Cyllid ac Adnoddau
Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn – Ceredigion, CLILC (ar ran y Cynghorydd Jamie
Adams)
Y Cynghorydd Peter Fox – Sir Fynwy, CLILC
Y Cynghorydd Neil Moore – Bro Morgannwg, CLILC
Y Cynghorydd Andrew Morgan – Rhondda Cynon Taf, CLILC
Y Cynghorydd Dyfed Edwards – Gwynedd, CLILC
Y Cynghorydd Brendan Toomey – Merthyr Tudful, CLILC

Yn bresennol

Y Cynghorydd Janice Dudley – Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mr Geoff Petty – Prif Swyddog Cyllid, Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru (ar
ran Alun Michael)

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Alex Rawlin – Cynghorydd Arbennig
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Rob Hay – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Alan Storey – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol (cofnodwr)

Swyddogion Llywodraeth Leol

Steve Thomas – Prif Weithredwr, CLILC
Chris Llewellyn – Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, CLILC
Nigel Aurelius – Cyfarwyddwr Cyllid, Torfaen, CLILC

Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd Bob Wellington – Torfaen, CLILC
Y Cynghorydd Jamie Adams – Sir Benfro, CLILC
Y Gwir Anrh Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru

Eitem 1 ar yr Agenda: Croeso a Chyflwyniadau

1. Gan gymryd yr awenau fel cadeirydd am y tro cyntaf, croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau i nawfed cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid.

Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion a Materion sy'n Codi o'r Cyfarfod Blaenorol

2. Cam Gweithredu 1: Cadarnhaodd Rob Hay fod y gwaith o ymchwilio i'r data blaenorol wedi'i ymgorffori yn rhaglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu.
3. Cam Gweithredu 2: CLILC i ddarparu nodyn ynghylch defnyddio offer diagnostig i lywio a chefnogi gweithgareddau trawsnewid. Cam gweithredu heb ei gyflawni oedd hwn.
4. Cam Gweithredu 3: Rhannwyd y materion a godwyd yn ystod y cyfarfod blaenorol ynglŷn â defnyddio gwasanaethau digidol â'r Gweithgor Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol.

Eitem 3 ar yr Agenda: Papur CLILC ynghylch Materion Cyllido Llywodraeth Leol

5. Cyflwynodd y Cynghorydd Aaron Shotton bapur CLILC ynghylch Materion Cyllido Llywodraeth Leol. Gofynnodd y Gweinidog am sylwadau'r aelodau eraill.
6. Ymatebodd y Gweinidog i faterion ynghylch Cronfa Strwythurol yr UE, Cyllideb Llywodraeth Cymru (gan gynnwys yr amserlen), amserlen y Setliad, grantiau penodol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Eitem 4 ar yr Agenda: Rhagolwg Cyllido'r Heddlu

7. Cyflwynodd Geoff Petty y papur a oedd yn amlinellu rhagolwg cyllido pedwar rhanbarth yr heddlu yng Nghymru.
8. Diolchodd y Gweinidog i Mr Petty. Dywedodd ei bod yn annhebygol y byddai newidiadau sylweddol i'r fethodoleg ddosbarthu cyn 2018-19 ar ôl i'r Swyddfa Gartref dynnu yn ôl ei newidiadau arfaethedig yn fformiwla ariannu'r heddlu ar gyfer 2016-17.

Eitem 5 ar yr Agenda: Adroddiad Cynnydd yr Is-grŵp Dosbarthu

9. Amlinellodd Rob Hay gylch gwaith yr Is-grŵp ar gyfer 2016 a chynnydd ym mhrif feysydd y gwaith.
10. Trafodwyd yr angen am ddull sy'n seiliedig ar anghenion ar gyfer dosbarthu adnoddau mewn perthynas â gwasanaethau gwastraff, yn unol ag egwyddorion fformiwla'r Grant Cynnal Refeniw.
11. Awgrymodd y Cynghorydd Shotton y byddai'n ddefnyddiol cael adroddiadau ar waith yr Is-Grŵp yn fwy aml.

Eitem 6 ar yr Agenda: Unrhyw fater arall

12. Roedd cyfarfod nesaf yr Is-grŵp Cyllid wedi'i drefnu ar gyfer 28 Medi 2016.